



ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR

23 MEDI 2015

Adroddiad gan: Rheolwr Busnes GwE

Pwnc: Calendr Cyfarfodydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar y rhaglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

2.0 Cefndir

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1 cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu

3.0 Ystyriaethau

3.1 Cynigir dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2015/16 fel Atodiad A

3.2 Pe byddai angen gwneud newidiadau i'r calendr, cynigir bod y Cadeirydd yn cael ei awdurdodi i wneud newidiadau yn dilyn ymgynghori priodol.

3.4 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliad canolog yng Ngogledd Cymru, h.y. Conwy.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 Cymeradwyo'r cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad A.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw effeithiau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghoriad yr ymgwymerwyd â fo

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi cyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

9.0 Atodiadau

Atodiad 1 Dyddiadau arfaethedig i'w cytuno a'u mabwysiadu:

CYFARFOD	DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD
Cyd-bwyllgor GwE	23 Medi 2015	Pnawn	Conwy
Cyd-bwyllgor GwE	12 Tachwedd 2015	Bore	Conwy
Cyd-bwyllgor GwE	24 Chwefror 2016	Bore	Conwy
Cyd-bwyllgor GwE	6 Gorffennaf 2016	Bore	Conwy